

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Y cefndir

Yn rhan o waith y **Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** i graffu ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), mae tîm allgymorth y Cynulliad wedi cynnal cyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru er mwyn casglu safbwyntiau a phrofiadau trawstoriad o bobl.

Cafwyd cyfraniadau gan bobl ifanc, disgyblion ysgol, myfyrwyr coleg a phrifysgol, pobl ddigartref, staff rheng flaen a defnyddwyr gwasanaeth. Roedd y grwpiau ffocws yn galluogi'r tîm allgymorth i glywed barn y rhai y mae'r Bil yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, ac i nodi safbwyntiau ynglŷn â'i effeithiolrwydd ac unrhyw opsiynau eraill a allai gyflawni amcanion y Bil. Cafwyd barn cymysgedd o bobl, yn amrywio o rai nad ydynt yn yfed alcohol o gwbl i bobl â phroblemau sy'n gysylltiedig â bod yn gaeth i alcohol. Cafwyd hyd i bobl i gymryd rhan trwy gysylltiadau a ddatblygwyd gan y Cynulliad a rhai a ddarparwyd gan grwpiau'r trydydd sector.

Cynhaliodd y tîm allgymorth naw sesiwn ledled Cymru, a darparwyd gwybodaeth ysgrifenedig gan un sefydliad arall nad oedd ar gael i gymryd rhan yn sesiynau'r grwpiau ffocws. Cysylltodd y tîm â grwpiau yn Ynys Môn, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Benfro, Powys, Abertawe a Wrecsam. Mae safbwyntiau 94 o bobl a gymerodd ran wedi cael eu cofnodi a'u crynhoi o dan themâu allweddol.

Trefn

Rhodddwyd gwybodaeth gefndir, crynodeb byr o'r Bil a disgrifiad o'r math o alcohol y mae'r Bil yn debygol o effeithio arno i'r rhai a oedd yn cymryd rhan, ac yna gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn iddynt:

- A ydych chi'n prynu'r math hwn o alcohol? Os ydych, pam? Os nac ydych, pam?
- Pe byddai'r math hwn o alcohol yn dod yn ddrutach, sut byddai hynny'n newid y math o alcohol yr ydych yn ei brynu, a faint ohono y byddech yn ei brynu?
- Os na fyddai'n newid y math o alcohol, a faint o alcohol yr ydych yn ei brynu, sut bydd y cynnydd mewn pris yn effeithio arnoch chi?



- Nod y Bil yw gwella ac amddiffyn iechyd pobl yng Nghymru. A ydych chi o'r farn y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar eich iechyd, a pham?

Crynodeb o'r themâu allweddol a'r cyfraniadau

1. Costau

"...er y bydda' i'n dal i yfed bob dydd, mae'n debyg y bydd yn golygu na alla' i fforddio seidr gwyn, felly bydda' i'n newid i'r diod rhataf nesaf, fydd yn 'well' imi mae'n debyg"

- Rhywun sy'n gaeth i alcohol, Caerdydd

Ar bobl o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is y bydd yr isafbris am alcohol yn cael yr effaith fwyaf, yn ôl y bobl a gymerodd ran. Nododd pawb a gymerodd ran mai'r bobl y mae'r cynigion yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yw pobl ddigartref, pobl ar incwm isel a phobl â phroblemau sy'n gysylltiedig â bod yn gaeth i alcohol. Roedd eraill o'r farn fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cosbi yfwyr cyfrifol yn annheg. Roedd cost yn thema a drafodwyd yn helaeth ym mhob grŵp ffocws.

Pan ofynnwyd iddynt sut y byddai'r cynnydd mewn prisiau yn effeithio arnynt hwy, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran, a phobl ifanc a myfyrwyr yn arbennig, na fyddent yn gwneud unrhyw newidiadau i'r math o alcohol y maent yn ei brynu ar hyn o bryd ac y byddent, yn syml iawn, yn aberthu rhywbeth arall yn eu cyllideb. Byddai hyn yn golygu na fyddent yn gallu fforddio bwydydd a diodydd iach. Dywedodd rhai hefyd y byddent mewn mwy o berygl o fynd i ddyled.

Eglurodd rhai pobl ifanc y byddent yn yfed alcohol ychydig yn ddrutach, yn hytrach na rhoi'r gorau i yfed alcohol yn llwyr, pe byddai eu sefyllfa ariannol yn caniatáu.

"Dwi ddim yn prynu'r math o alcohol rhad, cryf iawn mae'r Bil yn ei dargedu felly ni fydd yn effeithio arna' i"

- Person ifanc, Sir Gaerfyrddin

Roedd rhai yn ystyried hefyd fod croesi'r ffin i Loegr yn bosibilrwydd pe byddai isafbris ar gyfer alcohol yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. Crybwyllodd rhai a gymerodd ran hefyd fod perygl y gallai'r Bil greu marchnad anghyfreithlon, â phobl yn yfed alcohol cryf iawn, wedi'i wneud gartref, yn fwy aml.



2. Cyffuriau

“Mae potel o fodca yn costio £15 ond gallwch brynu pilsen am £7 – £10, a byddwch yn teimlo’r effaith trwy’r nos”

– Myfyriwr coleg, Conwy

Roedd pawb a gymerodd ran yn credu y byddai isafbris am alcohol yn gyrru rhai pobl sy’n yfed alcohol i droi at gyffuriau, a oedd yn cael eu hystyried yn rhatach. Rhoddwyd pils a mariwana fel enghreifftiau, ac eglurodd y rhai a oedd yn cymryd rhan y gallai hyn arwain at broblemau cymhleth ac aciwt a allai olygu bod y galw ar adnoddau’r GIG yn fwy fyth.

Dywedodd rhai hefyd y gallai isafbris am alcohol wthio rhai pobl sydd ar incwm isel neu sydd eisoes â phroblemau o ran bod yn gaeth i alcohol, i arogli glud neu hylif teneuo paent.

3. Caethiwed

“Ni fydd cynyddu pris alcohol yn gwneud dim i fynd i’r afael ag alcoholiaeth”

– Myfyriwr coleg, Abertawe

Thema gyffredin a ddaeth i’r amlwg yn ystod y trafodaethau oedd y perygl y gallai isafbris am alcohol wthio pobl â phroblemau sy’n gysylltiedig â bod yn gaeth i alcohol i ymdopi â’u caethiwed mewn ffyrdd eraill a allai fod yn fwy niweidiol. Roedd unigolion a gymerodd ran ac a oedd yn gaeth i alcohol o’r farn y byddai pobl a oedd yn ddifrifol gaeth yn ceisio bodloni eu hangen trwy yfed cynhyrchion cartref sy’n cynnwys alcohol, er enghraifft hylif diheintio’r dwylo.

Yn hyn o beth, roedd y rhai a gymerodd ran yn teimlo y byddai’r cynigion yn wrthgynhyrchiol pe byddent yn cael eu cyflwyno fel ag y maent ar hyn o bryd. Dywedodd staff mewn canolfan i’r digartref y byddai triniaeth i bobl sy’n gaeth i alcohol yn cael ei disodli gan driniaeth i bobl sy’n gaeth i gyffuriau neu, o bosibl, triniaeth ar gyfer salwch / sgil effeithiau o ganlyniad i yfed cynhyrchion na fwriadwyd i bobl eu hyfed ond sy’n cynnwys alcohol.

“Rwy’n cytuno y dylid codi cost alcohol ond dylai hyn fod fel treth ac fod y treth yn mynd yn benodol i bobl sy’n dioddef problemau yn sgil alcohol”



Roedd nifer o bobl a gymerodd ran o'r farn y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn gorfodi nifer o bobl â phroblemau sy'n gysylltiedig â bod yn gaeth i alcohol, ac sy'n ddigartref neu ar incwm isel, roi'r gorau yn llwyr heb unrhyw gefnogaeth. Amlygwyd y peryglon i bobl sy'n gaeth i alcohol pan fyddant yn rhoi'r gorau iddo'n gyflym, gan y gall arwain at drawiad, neu farwolaeth yn yr achosion gwaethaf.

4. Trosedd

“Ni fydd cynyddu pris alcohol yn newid y diwylliant yfed, ond fe allai arwain at ragor o ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel dwyn”

– Myfyriwr coleg, Abertawe

Un o oblygiadau'r ddeddfwriaeth arfaethedig a grybwyllwyd gan bob grŵp oedd cynnydd mewn trosedd, a dwyn yn arbennig. Eglurodd rhai fod gweithwyr rhyw yn aml yn gweithio yn gyfnewid am alcohol a/neu gyffuriau yn hytrach nag arian. Mae'r cynigion hefyd yn debygol o gynyddu nifer y bobl sy'n cardota ag am ba hyd y maent yn cardota, yn ôl staff mewn canolfan i'r digartref.

Roedd y bobl a gymerodd ran o'r farn y byddai isafbris am alcohol yn gwneud y sefyllfa hon yn waeth.

5. Diodydd alcohol wedi'u brandio

“Bydd pobl yn symud at cynhyrchion brand. Gallai arwain at ailddosbarthu elw o fewn y diwydiant. Ry'n ni'n tueddu i fynd am frandiau fel Smirnoff ac nid brandiau'r archfarchnadoedd eu hunain oherwydd y blas”

– Myfyriwr coleg, Conwy

Trwy gyflwyno isafbris am alcohol, byddai brandiau archfarchnadoedd megis Tesco Everyday Value yn gwneud llai o elw. Fodd bynnag, roedd rhai myfyrwyr prifysgol o'r farn y byddai brandiau arbenigol sydd wedi'u hen sefydlu, megis Smirnoff a Budweiser, yn gwneud mwy o elw gan fod ganddynt yr arbenigedd a'r adnoddau i gyflwyno strategaethau marchnata soffistigedig i wrthweithio'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

Gallai hefyd ganiatáu i'r brandiau hyn greu eu hamrywiaeth eu hunain o ddiodydd rhatach a fyddai'n creu gwell arbedion maint a chronfa fwy amrywiol o gwsmeriaid.

Dyweddod pobl ifanc a myfyrwyr fod brandiau arbenigol sydd wedi'u hen sefydlu yn fwy deniadol na brandiau'r archfarchnadoedd, ac na fyddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig felly yn newid y math o alcohol, na faint ohono, y maent yn ei yfed.

6. Cymariaethau rhyngwladol

Er bod llawer o'r rhai a gymerodd ran yn deall ac yn edmygu bwriad y Bil, roeddent o'r farn bod y cynigion yn rhy eithafol. Cyfeiriodd un person ifanc at y sefyllfa yn Awstralia, a dywedodd y byddai camau i rwystro alcohol rhag cael ei weini ar ôl 10:00pm a/neu i gyfyngu ar faint o alcohol y gellid ei brynu mewn diwrnod yn fwy effeithiol.

Cymharodd eraill y sefyllfa ag India a Rwsia, sydd wedi cyflwyno pris isaf fesul uned o alcohol. Fodd bynnag, canlyniad anfwriadol hyn oedd bod pobl wedi dechrau bragu gartref, a bod marchnad anghyfreithlon wedi'i chreu.

Dewisiadau gwahanol i'r cynigion presennol

1. Addysg

"... 'dyw'r llywodraeth ddim wir wedi rhoi cynnig ar y dulliau eraill o fynd i'r afael â'r broblem sylfaenol. Dylai llywodraeth bob amser gadw cyfyngu ar ryddid pobl fel y dewis olaf wrth geisio datrys problemau cymdeithasol"

– Myfyriwr prifysgol, Caerdydd

Roedd rhai o'r bobl a gymerodd ran yn teimlo y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar addysgu dinasyddion Cymru ynglŷn â'r peryglon sydd ynghlwm wrth yfed mewn modd anghyfrifol.

Roedd llawer ohonynt o'r farn fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn rhy llym ac yn atgoffa rhywun o gyfnod y Gwahardd. Crybwyllwyd ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o beryglon alcohol fel dull mwy effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem sydd wrth wraidd y mater. Dywedodd rhai pobl ifanc y dylai addysg i ddinasyddion ynglŷn ag yfed mewn modd cyfrifol a'r peryglon sy'n gysylltiedig ag alcohol fod ar lefel debyg i'r addysg ynglŷn â rhyw a roddir i ddisgyblion ar hyn o bryd.

Awgrymwyd, fel un opsiwn yn lle deddfwriaeth, y posibilrwydd o gynnwys rhybuddion iechyd amlwg a grymus ar gynhyrchion alcohol, a'u cuddio mewn siopau fel sy'n digwydd yn achos sigarêts. Dywedodd y bobl a gymerodd ran y byddai'r dull



gweithredu hwn yn dod â mwy o fudd i iechyd y cyhoedd yn y tymor hir, yn debyg i'r hyn sydd wedi digwydd wrth wahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus. Dywedwyd na fyddai cenedlaethau'r dyfodol yn meddwl bod dim yn rhyfedd am y peth, gan na fyddent yn gwybod dim gwahanol.

2. Triniaeth i bobl sy'n gaeth i alcohol

"Rwy'n dioddef o sirosis yr afu ac mae'r meddyg wedi dweud wrtha' i mai dwy flynedd sydd gen' i ar ôl. Er mod i'n cael fy ystyried yn 'achos difrifol', dwi dal ddim wedi dechrau'r rhaglen ddadwenwyno. Bydd naw mis wedi mynd heibio rhwng cael y newyddion gan y meddyg a dechrau'r rhaglen ddadwenwyno"

Rhywun sy'n gaeth i alcohol, Caerdydd

Un maes y nodwyd ei fod yn destun pryder difrifol, yn enwedig gan bobl â phroblemau sy'n gysylltiedig â bod yn gaeth i alcohol, oedd y broses atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau dadwenwyno i bobl sy'n gaeth i alcohol. Roedd rhai o'r bobl a gymerodd ran yn teimlo nad yw'r broses bresennol yn addas i'r diben, gan ddweud y dylid canolbwyntio adnoddau ar driniaeth yn hytrach nag ar gyflwyno deddfwriaeth.

Eglurodd pobl a gymerodd ran fod pobl â phroblemau sy'n gysylltiedig â bod yn gaeth i alcohol yn aml yn byw bywydau annhrefnus a'u bod yn ei chael yn anodd mynd i apwyntiadau neu i gofio pryd mae eu hapwyntiadau. Mae'r broses o atgyfeirio rhywun at raglen ddadwenwyno yn aml yn cael ei hatal os bydd yr unigolyn dan sylw yn peidio â dod i apwyntiad, yn cyrraedd yn hwyr neu'n cyrraedd wedi meddwi. Dywedodd y mwyafrif llethol o'r rhai a gymerodd ran y dylid rhoi rhagor o gymorth i bobl â phroblemau sy'n gysylltiedig â bod yn gaeth i alcohol.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws hyn ac a gyfrannodd wybodaeth yn ysgrifenedig, am rannu eu barn â ni. Diolch hefyd i'r sefydliadau a fu'n gweithio gyda ni i gasglu'r safbwyntiau a'r profiadau hyn:

Students for Liberty, Prifysgol Caerdydd.

Gwasanaeth Cymorth Ieuencid Sir Gaerfyrddin

Coleg Llandrillo

Coleg Gŵyr Abertawe



Canolfan Huggard

Ysgol Uwchradd y Drenewydd

Cymdeithas Gofal Sir Benfro

Tŷ Croeso – Y Wallich

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Ysgol Uwchradd Bodedern

